



Croeso i IAW ar y we!

Rydych wedi tanysgrifio i **IAW** am y flwyddyn ac o dan drefn newydd 2019-20 mae deunydd yr ail fis o bob dau yn ddigidol. Felly am fisoedd Hydref, Rhagfyr, Chwefror, Ebrill a Mehefin bydd y deunydd yn ymddangos ar y tudalennau yma, i chi unai eu defnyddio ar gyfrifiadur yn y dosbarth neu eu printio allan fel gweithlenni.

Fel yr aiff y flwyddyn yn ei blaen, rydym yn gobeithio cyflwyno deunydd cynyddol ac ôl rifynnau hefyd.

Rydym yn awyddus i glywed eich barn am y newidiadau hyn...
Anfonwch aton ni - iaw@urdd.org



Urdd

iaw@urdd.org

urdd.cymru/iaw

Gweithlen Hydref

Unwaith eto, mae'n amser meddwl am...



Ffocws iaith	Geiriau sy'n dweud pryd: Diwedd mis ... Dechrau mis ... Y flwyddyn nesaf Yn 2021	• Diwedd mis Mai a dechrau mis Mehefin eleni roedd Eisteddfod yr Urdd ym Mae Caerdydd. • Y flwyddyn nesaf, rhwng 25 a'r 30 o Fai 2020, bydd yr Eisteddfod yn Sir Ddinbych. • Yn 2021 Sir Gaerfyrddin fydd yn croesawu'r Eisteddfod.
	Amser y ferf: Roedd ... fydd bydd	
	Treigladau Trwynol (e.e. b > m) yn + enw lle ym Mae Caerdydd	



Dyma Rhestr Testunau Eisteddfod Sir Ddinbych.

Dyma'r llyfryn sy'n dweud beth ydy'r cystadlaethau.

Ar dudalen 63 mae'r cystadlaethau rhyddiaith (prose) ar gyfer dysgwyr.

CYSTADLEUAETH 397 ydy

Rhyddiaith Blwyddyn 10 ac 11

'Mae gen i farn ...'

'Mae gen i farn ...'

Dewis da ar gyfer Blwyddyn 10 ac 11, ydych chi'n cytuno?

Pam?

1. mae gan bawb farn am bob math o bethau (bwyd, ffasiwn, rhaglenni teledu, y dechnoleg fodern, gwyliau, amser hamdden, llyfrau)
2. yn Uned 1, 2 a 4 yr Arholiad TGAU mae'n rhaid mynegi barn a chynnig rhesymau i gefnogi eich barn.

A Mynegi barn yn syml a chynnig rheswm yn syml.

(i) Ydych chi'n defnyddio'r patrymau iaith isod i fynegi barn?

Yn fy marn i, mae ...

Yn fy marn i, dydy ... ddim yn ...

Dw i'n hoffi ...

Dw i'n hoff iawn o ...

Dw i ddim yn hoffi ...

Dw i'n mwynhau ...

Fy hoff ... ydy ...

Dw i ddim yn mwynhau ...

Dw i wrth fy modd gyda ...

Mae'n gas gen i ...

Dw i'n casau ...

Dw i'n dwlu ar ...

Dw i'n cytuno bod ...

Dw i ddim yn cytuno bod ...

Dw i ddim yn hoff iawn o ...

Dw i'n anghytuno bod ...

Beth am greu
gêm syml i helpu
chi a phartner i
ymarfer
defnyddio'r
patrymau hyn?

(ii) Cynnig rheswm (achos ...)

Pa fath o reswm fyddwch chi'n gynnig i gefnogi eich barn?

Mae gennych **5 munud** i gwblhau'r tabl isod.

- Dewiswch reswm/rhesymau i gefnogi barn disgyblion Blwyddyn 10 Ysgol y Graig.
- Ar ôl 5 munud cymharwch (compare) eich dewis gyda phartner.

Enw	Barn	... achos ...
Siân	Dw i'n mwynhau darllen llyfrau hanes	
Grace	Fy hoff raglen deledu ydy <i>Strictly Come Dancing</i>	
Harri	Yn fy marn i, mae dillad <i>designer</i> yn bwysig dros ben	
Jac	Dw i'n hoff iawn o fwyd o'r Eidal fel pizza a pasta	
Miranda	Mae gas gen i wyllo golff ar y teledu	
George	Dw i wrth fy modd yn mynd i Sbaen neu Portiwgal ar wyliau	
Josh	Dw i'n hoffi dysgu Cymraeg	
Seren	Dw i ddim yn mwynhau gwneud gwaith cartref bob nos	
Lucas	Dw i'n casau siopa yn yr archfarchnad gyda Mam	
Martha	Dw i ddim yn or-hoff o deithio adref ar y bws	

B

Mynegi barn yn fwy ymestynnol i gael marciau gwell yn yr arholiad.

- Mae cynllun marcio'r arholiad TGAU yn gofyn am
- (i) mynegi barn a chyfiawnhau barn yn llawn

(ii) defnyddio ystod eang (wide range) o batrymau iaith yn gywir

Beth am fynegi barn fel hyn?:

Mae ... yn apelio ata i'n fawr.	Dydy ... ddim yn apelio ata i o gwbl.
Mae'n well gen i.	
Bydda i'n cael llawer o bleser o ...	Bydda i byth yn ...
	Baswn i byth yn ...
Roeddwn i'n arfer meddwl bod ... yn ...	
Roeddwn i'n arfer mwynhau ... ond ...	
	Am ryw reswm mae ... yn fy ngwylltio i.
I mi, mae'n bwysig bod ...	
Dw i o blaid y syniad o ...	Dw i yn erbyn y syniad o ...
Dw i'n cytuno gyda'r syniad o ...	Dw i'n anghytuno gyda'r syniad o ...
	Mae hyn yn waeth na ...
Dw i'n credu bod ...	Dw i ddim yn credu bod ...
Yn fy marn i mae hyn yn well na ...	Ond dw i ddim yn hoffi ... cystal â ...
Mae ... yn ffefryn gen i	
Dw i'n eitha hoff o ...	

- Dewiswch y patrymau mynegi barn sy'n newydd i chi
- Defnyddiwch 'strategaethau deall iaith' i ddeall ystyr pob un
- Dewiswch 4 neu 5 sy'n apelio atoch / fydd yn ddefnyddiol i chi
- Rhannwch eich dewis gyda phartner
- Dewiswch ffasiwn, y dechnoleg fodern, gwyliau neu amser hamdden
- Defnyddiwch y patrymau iaith rydych chi wedi ddewis i fynegi barn am y thema
- Unwaith eto rhannwch eich gwaith gyda phartner / grŵp
- COFIWCH ddysgu mwy o batrymau ymestynnol er mwyn gwella eich gwaith - a'ch marciau!

NAWR mae'n rhaid **cefnogi** barn yn ymestynnol hefyd.

Dyma rhai syniadau i chi:

yn anhygoel	yn afiach
yn arbennig o ...	yn wael
yn boblogaidd	ddim cystal â ...
yn gall	yn broblem
yn gyfrifol	jyst ddim yn iawn
yn well na ...	ddim mor ... â ...
yn afresymol	yn ddrwg i ... / i chi

Beth am rhain?

rhy boeth o lawer
afresymol o ddrud
anhygoel o bell
eithriadol o oer
hollol blentynaid
hynod o ddiddorol

mwynhâd pur
tu hwnt o ddoniol
sôn am wych

Cofiwch ddefnyddio rhain pan rydych chi'n siarad ac yn ysgrifennu yn Gymraeg. Ond yn gyntaf beth ydy ystyr pob un?
Mae tasg ar y dudalen nesaf.

C

Defnyddiwch strategaethau deall iaith i gysylltu'r Gymraeg yn 'Colofn A' gyda'r Saesneg yn 'Colofn B'.

Colofn 'A'	Cliwiau	Colofn 'B'
rhy boeth o lawer	boeth / poeth llawer (e.e llawer o arian)	extremely cold
afresymol o ddrud	rheswm/rhesymol	pure enjoyment
anhygoel o bell	bell/pell	unreasonably expensive
eithriadol o oer	oer	remarkably interesting
hollol blentynaid	plentyn	much too hot
hynod o ddiddorol	diddorol	unbelievably far
mwynhâd pur	mwynhau pur - tebyg i'r Saesneg	talk about great
tu hwnt o ddoniol	doniol	beyond funny
sôn am wych	wych/gwych	totally childish

Yn y rhifyn nesaf bydd cyfle i ddarllen a gwrando ar farn bobl ar nifer o wahanol themau.

Hefyd bydd help i ysgrifennu darn o ryddiaith (prose)

'Mae gen i farn'

ar gyfer cystadleuaeth gwaith cartref Rhif 397 yn Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2020.



Ch

TASGAU ymarfer mynegi barn a chynnig rhesymau **ymestynnol**.

- (i) Defnyddiwch y patrymau iaith yn **B** i fynegi barn a chynnig rheswm am y pynciau canlynol. Gallwch ddefnyddio'r weithlen i'ch helpu.

rhaglenni teledu realiti	gwyliau yn Lapland	gwylïo gêm rygbi yn Stadiwm y <i>Principality</i>	bwyd India
bandiau Cymraeg	Instagram	y tywydd yng Nghymru	<i>Ferrari</i> coch

- (ii) Y tro yma, defnyddiwch y patrymau iaith estynniedig i fynegi barn a chynnig rheswm ond **peidiwch a defnyddio'r weithlen i'ch helpu**.

<i>iPhone</i> / tabled	bwyd China	tîm pêl-droed Man U	operau sebon
gwisg ysgol	chwarae ar yr XBox	y tywydd yn Sbaen	gwyliau yn y Caribî

CYMRU SY'N GWNEUD EU MARC AARON RAMSEY

Mae Cymru wedi cynhyrchu llawer o beldroedwyr talentog dros y blynyddoedd - o Billy Meredith ar ddechrau'r 20fed ganrif i Gareth Bale heddiw. Un sy wedi gwneud ei farc ar y llwyfan rhyngwladol yn ogystal ag yng Nghymru a Lloegr ydy Aaron Ramsey.

BYWYD CYNNAR

O Gaerffili yng Nghwm Rhymni mae Aaron yn dod yn wreiddiol. Cafodd e ei eni ar ddydd San Steffan, 1990. Aeth Aaron i ysgol gynradd Gymraeg Caerffili ac wedyn i Ysgol Gyfun Gymraeg Cwm Rhymni. Yn ysgol Cwm Rhymni, roedd Aaron yn hoff iawn o chwaraeon o bob math. Roedd e'n athletwr talentog. Roedd e'n bencampwr ysgolion Cymru yn y ras 800 metr. Roedd e hefyd yn bencampwr pentathlon ysgolion Cymru yn 2005, a'r 4ydd gorau ym Mhrydain dan 17 oed yn 2006.


Roedd Aaron yn hoff iawn o rygbi hefyd a chwaraeodd e fel asgellwr dros dîm ieuencid Caerffili.

OEDDECH CHI'N GWYBOD...

Yn 2006, roedd Aaron yn chwarae dros dîm rygbi'r gynghrair yr ysgol yn erbyn Saint Helens. Roedd diddordeb mawr gyda sgowntiaid Saint Helens yn y dalent ifanc yma. Yn anffodus iddyn nhw ac yn ffodus i ni, roedd academi ieuencid Dinas Caerdydd eisoes wedi bachu llofnod Aaron.

CYFNOD GYDA DINAS CAERDYDD

O chwech oed, roedd mam Aaron yn mynd â fe i sesiynau hyfforddi gyda'r Urdd yng Nghaerffili. Swyddog chwaraeon yr Urdd ar y pryd oedd Gary Lewis. Roedd Gary hefyd yn hyfforddi chwaraewyr ifanc clwb Dinas Caerdydd. Yn fuan, arwyddodd Aaron dros glwb y brifddinas. Chwaraeodd Aaron i fechgyn ysgol dinas Caerdydd tan 2007. Daeth ei gyfle mawr i chwarae yn y tîm cyntaf yng ngêm olaf tymor 2006/2007 yn erbyn Hull City. Roedd Aaron ar y fainc ond daeth e ar y cae ar ôl 88 munud o'r gêm.



Dyma Aaron yn ystafelloedd newid Ysgol Cwm Rhymni yn fuan ar ôl chwarae yn ei gêm gyntaf dros dîm cyntaf Dinas Caerdydd

WEL WEL.... Mae pennaeth chwaraeon yn ysgol Cwm Rhymni, Jeremy Evans yn cofio'r diwrnod yn dda. "Ffoniodd clwb Dinas Caerdydd yr ysgol yn gofyn am



ENW: AARON JAMES RAMSEY

GENI: Rhagfyr 26, 1990, Caerffili

OED: 28

TALDRA: 6'2"

SAFLE: Canol y cae

CLYBIAU:

Gorffennaf 2007 - Caerdydd

Gorffennaf 2008 - Arsenal

Tachwedd 2010 - Nottingham Forest (Ar fenthyg)

Rhagfyr 2010 - Arsenal

Ionawr 2011 - Caerdydd (Ar fenthyg)

Chwefror 2011 - Arsenal

Gorffennaf 2019 - Juventus



ganiatâd i Aaron chwarae ar y dydd Sadwrn. Roedd rhaid i ni alw Aaron o iard yr ysgol i esbonio beth oedd yn digwydd".

FFAITH DDIDDOROL

Aaron oedd y chwaraewr ifancaf i chwarae i'r tîm cyntaf erioed yn 16 mlwydd 124 diwrnod oed - yn curo John Toshack o 112 diwrnod!!!

Gwylwch ymddangosiad cyntaf Aaron yma:

youtu.be/JpNOJaubdWY

Aeth Aaron ymlaen i chwarae 28 o gemau dros ddinas Caerdydd gan gynnwys gemau ar fenthyg. Gem fwyaf Aaron dros y clwb oedd rownd derfynol Cwpan yr FA yn 2008 yn erbyn Portsmouth. Yn anffodus, Portsmouth enillodd o 1-0.

AARON, ARSENAL AC ARSENE

Ar ôl blwyddyn yn unig gyda chlwb Dinas Caerdydd, ymunodd Aaron â thîm Arsenal am ffi o 5 miliwn o bunnoedd ym mis Mehefin 2008. Rheolwr Arsenal ar y pryd oedd Arsene Wenger. Disgrifiodd e Ramsey fel "chwaraewr gydag egni anhygoel, techneg a gweledigaeth dda".



Gêm gyntaf Aaron dros y Gunners oedd yng Nghynghrair y Pencampwyr yn erbyn FC Twente ym mis Awst 2008. Ei gêm Uwch Gynghrair gyntaf oedd yn erbyn Blackburn Rovers ym mis Medi y flwyddyn yna. Chwaraeodd Aaron yn rheolaidd dros y clwb o Lundain nes iddo fe dorri ei goes mewn gêm yn erbyn Stoke

City ym mis Chwefror 2010. Aeth e allan ar fenthyg dwywaith yn rhydd 2010/11 er mwyn adennill ei ffitrwydd - i Nottingham Forest ac yn ôl i'w hen glwb, Ddinas Caerdydd.

O fis Chwefror 2011 hyd at 2019, roedd e'n aelod sefydlog o dîm cyntaf Arsene Wenger.

Tymor 2013/14 oedd y tymor gorau i Aaron. Sgoriodd e 16 o goliau gan gynnwys y gôl fuddugol yn erbyn Hull City yn rownd derfynol Cwpan yr FA 2014. (Hull wrth gwrw oedd gwrthwynebwyr cyntaf Aaron yn 2007).



youtu.be/ejvXO-_b4J4

I goroni'r tymor, cafodd Aaron ei enwi fel Chwaraewr y Flwyddyn gyda 58% o bleidleisiau'r cefnogwyr. Derbyniodd e'r un anrhyddedd ar ddiwedd tymor 2017/18.

WEL WEL...

Enillodd Aaron dri chwpan FA gydag Arsenal. - yn erbyn Hull yn 2014, Aston Villa yn 2015 ac yn erbyn Chelsea yn 2017. Sgoriodd e'r goliau buddugol yn 2014 a 2017.

youtu.be/rpyppkrx3aU

Aaron yn dathlu ar ôl chwiban olaf rownd derfynol Cwpan yr FA 2014



WEL WEL - pan symudodd Aaron i Lundain i fyw, roedd e'n rhannu tŷ gyda Chris Gunter. Roedd Chris yn chwarae dros Gaerdydd yr un pryd ag Aaron. Yn Llundain, roedd Chris yn chwarae dros brif elynion Arsenal, sef Tottenham.

SYMUD I JUVENTUS

Ym mis Chwefror 2019, daeth y newyddion bod Aaron yn symud i'r clwb o Turin, Juventus ar ddiwedd y tymor ar gytundeb pedair blynedd. Mewn cyfweiliad ym mis Gorffennaf eleni, dywedodd Aaron ei fod e'n edrych ymlaen yn fawr iawn at chwarae dan Maurizio Sarri a gyda chwaraewyr fel Cristiano Ronaldo a chyn golwr Arsenal, Szczesny. Bydd Aaron yn gwisgo crys rhif 8. Roedd gêm olaf tymor 2019/20 yn emosiynol iawn i Aaron. Doedd e ddim yn gallu chwarae yn y gêm achos anaf i linyn ei ar. Ar ddiwedd y gêm, cafodd e gymeradwyaeth fyddarol gan y dorf a'i gyd-chwaraewyr.

Dilynwyd y linc i weld cyfweiliad gydag Aaron ar ôl y gêm yna.

youtu.be/1DVRTpM95io

AARON A THÎM CYMRU

i ni yng Nghymru, mae Aaron Ramsey, yn un o sêr mawr ein tîm pêl-droed cenedlaethol.

Ar ôl chwarae dros dimau dan 17 a dan 21, chwaraeodd Aaron ei gêm gyntaf dros ei wlad yn 2008 mewn buddugoliaeth yn Nenmarc. Sgoriodd e ei gôl gyntaf dros Gymru mewn gêm ragbrofol Cwpan y Byd yn Liechtenstein yn 2010.



Aaron Ramsey (yn y canol) yn nhîm dan 21 Cymru

Cafodd Aaron ei benodi'n gapten tîm Cymru gan Gary Speed yn 2011 pan oedd e'n 20 mlwydd a 90 diwrnod oed - capten ifancaf tîm Cymru erioed.

Aaron gyda chyn-reolwr Cymru, Gary Speed



Roedd Aaron yn aelod allweddol o'r tîm gyrhaeddodd gemau terfynol Ewro 2016 yn Ffrainc gan helpu ei wlad i gyrraedd y rownd gynderfynol. Sgoriodd e gôl yn erbyn Rwsia yn y gemau grŵp (youtu.be/PLRYWVd3CPw) a chwarae rhan bwysig mewn sawl un o'r goliau eraill. (youtu.be/f1dleggn3As)

Dyma'r funud fydd neb yn anghofio - Hal Robson Kanu, gyda help Ramsey, yn sgorio ail gôl Cymru yn rownd yr wyth olaf yn erbyn Gwlad Belg. youtu.be/bxoHaioCAlk

Ramsey oedd y chwaraewr gyda'r nifer mwyaf o gynorthwyau yn y twrnament.

Cafodd Aaron ei enwi wrth ochr ei gyd-Gymry, Gareth Bale ac Ashley Williams, yn nhîm y twrnament am ei berfformiadau gwyth.

Yn anffodus, derbyniodd Aaron ei ail garden felen yn rownd yr wyth olaf yn y gêm yn erbyn Gwlad Belg a chollodd e'r gêm yn y rownd gynderfynol yn erbyn Portiwgal.

TEULU AARON

Does dim byd yn well gydag Aaron na mynd yn ôl i Gaerffili i weld ei deulu - ei dad Kevin, ei fam Marlene a'i frawd Josh.

Priododd Aaron ym mis Mehefin 2014 gyda'i gariad ysgol Colleen. Roedd y briodas yng Nghastell Cil-y-coed, Sir Fynwy. Mae mab bach gydag Aaron a Colleen o'r enw Sonny.

Yn ogystal â threulio amser gyda'i deulu, mae Aaron yn hoff o saethu colomennod clai gyda'i frawd Josh. Mae e hefyd yn gefnogwr brwd o'r WWF.

Y LLYSENW RAMBO

O'i ddyddiau yn Ysgol Cwm Rhymni daeth y llysenw Rambo. Cafodd Aaron ei eilyddio mewn gêm pan oedd e'n 11 oed. Dechreuodd ffrwgdw rhyngddo fe a chwaraewr arall. Dywedodd un o'i ffrindiau ei fod e fel y Rambo allan o ffilmiau enwog Sylvester Stallone.

AARON A'R IAITH GYMRAEG

Mae Aaron yn falch iawn iawn o'i Gymreictod a'r ffaith ei fod e'n gallu siarad Cymraeg. Dydy Aaron byth wedi anghofio'r help gafodd e gan Yr Urdd ar ddechrau ei yrfa. Dyma gyfweiliad gydag Aaron yn Gymraeg o 2006 gyda Rhydian Bowen Phillips ar gyfer y rhaglen Uned 5. youtu.be/TCF9rCr7uHY

WEL WEL... yn 2015, ysgrifennodd Aaron 'un flwyddyn i heddiw' ar drydar er mwyn dathlu pen-blwydd ei briodas. Roedd llawer o ddilynwyr Aaron yn gwneud hwyl am ei ben. Ateb Aaron oedd ei fod yn 'falch i siarad Cymraeg' a'i fod e'n mynd i 'barhau i'w defnyddio ar Drydar'.



Mae Aaron wrth ei fodd yn trafod tactegau yn Gymraeg gyda Chymry Cymraeg eraill tîm Cymru - Joe Allen, Wayne Hennessey, Ben Davies, Danny Ward, Neil Taylor a Jazz Richards.

Mae hen ysgol Aaron, Ysgol Cwm Rhymni, yn falch iawn, iawn o'i gyflawniadau. Mae lluniau o Aaron ar hyd coridorau'r ysgol. Pan chwaraeodd Aaron dros Gymru yng nghystadlaeth Ewro 2016, gwnaeth disgyblion yr ysgol faner enfawr yn dymuno pob lwc iddo fe!!

PÊL DROEDWYR ERAILL O GYMRU SY WEDI GWNEUD EU MARC DRAMOR

JOHN CHARLES ('Il Gigante Buono').

O Abertawe yn wreiddiol, ymunodd John â thîm Juventus yn 1957 am £65,000 - y ffi fwyaf erioed ar y pryd. Sgoriodd e 93 o goliau mewn 155 o gemau

dros Juventus yn ogystal ag ennill Cwpan Yr Eidal dwywaith. Chafodd John ddim un garden felen neu garden goch trwy gydol ei yrfa. Enillodd e bleidlais y cefnogwyr fel hoff chwaraewr tramor erioed y clwb

Gallwch chi wyllo rhai o goliau John Charles dros Juventus yma:

youtu.be/-b8Dofl49eM



Dyma'r tri pheldroediwr o Gymru sydd wedi chwarae dros Juventus - John Charles ar y chwith, Ian Rush ar y dde ac Aaron Ramsey yn y canol.

JESSICA FISHLOCK


O Gaerdydd yn wreiddiol, mae Jess wedi chwarae dros fwy o glybiau tramor nag unrhyw beldroediwr arall o Gymru.

- Bryste yn Uwch Gynghrair Merched Lloegr, 2007/8 a 2011/12
- AZ Alkmaar yn yr Iseldiroedd, 2008-10
- Melbourne, Awstralia, 2012-13
- Seattle Reign, America 2013 - heddiw

Mae hi wedi chwarae ar fenthyg dros dimau Glasgow, Frankfurt, Melbourne ac Olympique Lyonnais Yn 2017, Jess oedd y peldroediwr cyntaf i ennill cant o gapiau dros Gymru.

Hi oedd Peldroediwr y Flwyddyn, Cymru, yn 2011, 2012, 2013 a 2014.

Enillodd hi fedal Cynghrair y Pencampwyr gyda Frankfurt yn 2015



JOHN TOSHACK

O Gaerdydd yn wreiddiol, chwaraeodd Toshack dros ei glwb gartre, Lerpwl a Dinas Abertawe ond fel rheolwr gwnaeth John ei farc dramor. Ar ôl arwain Dinas Abertawe o'r hen Adran Pedwar (Adran Dau nawr) i Adran Un (Yr Uwch Gynghrair nawr), aeth e i Bortiwgal fel rheolwr i Sporting Lisbon, ac yna i Sbaen fel rheolwr i Real Sociedad (dwywaith) a Real Madrid. Enillodd John bencampwriaeth cynghrair Sbaen gyda Real Madrid yn nhymor 1989/90.

MARK HUGHES


O bentref bach Rhiwabon ger Wrecsam yn wreiddiol, ymunodd Mark â thîm Barcelona o Manchester United yn 1996 ac aeth e ar fenthyg i Bayern Munich cyn dychwelyd i Loegr i chwarae dros Manchester United, Chelsea, Southampton, Everton a Blackburn Rovers. Roedd Mark yn rheolwr llwyddiannus tîm Cymru o 1999 tan 2004.

DEAN SAUNDERS

Un arall o feibion Abertawe, sgoriodd Dean 15 gôl mewn 27 gêm dros dîm Galatasaray, Twrci yn nhymor 1995/96. Sgoriodd e bum gwaith dros Benfica hefyd yn nhymor 1998/99.

GARETH BALE

Ar ôl John Charles, Bale ydy'r chwaraewr mwyaf llwyddiannus o Gymru i chwarae dramor. Gadawodd e glwb Tottenham yn 2013 i ymuno â thîm Real Madrid. Ei goliau mwyaf cofiadwy i Real efallai oedd y ddwy gôl yn rownd derfynol Cynghrair y Pencampwyr yn 2018 yn erbyn Lerpwl. Roedd y gôl gyntaf yn gic drosben anhygoel.



youtu.be/PmISDLqo_j4

GEIRFA

cynhyrchu - (to) produce
dros y blynyddoedd - over the years
llwyfan rhyngwladol - international stage
yn ogystal â (ag) - as well as
dydd San Steffan - Boxing Day
asgellwr - winger
rygbi'r gynghrair - rugby league
eisoed - already
bachu llofnod - (to) grab a signature
ar y pryd - at the time
hyfforddi - (to) train
yn fuan - soon
arwyddo - (to) sign
ar y fainc - on the bench
caniatâd - permission
erioed - ever
curo - (to) beat
ymddangosiad - appearance
gan gynnwys - including
ar fenthyg - on loan
rownd derfynol - final (round)
ymuno â - (to) join
egni anhygoel - incredible energy
gweledigaeth dda - good vision
Cynghrair y Pencampwyr - Champions League
Uwch Gynghrair - Premiership
yn rheolaidd - regularly
adennill - (to) regain
sefydlog - established
gôl fuddugol - winning goal
gwrthwynebwyr - opponents
coroni - (to) crown
pleidlais / pleidleisiau - vote/s
yr un anrhydedd - the same honour
dathlu - (to) celebrate
chwiban olaf - final whistle
rhannu - (to) share
yr un pryd â - the same time as

prif elynion - main rivals
cytundeb - agreement / contract
cyfweiliad - interview
anaf - injury
llinyn ei ar - his hamstring
cymeradwyaeth fyddarol - deafening
applause
gêm ragbrofol - qualifiers
penodi - (to) appoint
aelod allweddol - a key member
cynhorthwy / cynorthwyau - assists
derbyn - (to) receive
Cil-y-coed - Caldicot
Sir Fynwy - Monmouthshire
saethu colomennod clai - clay pigeon
shooting
brwd - enthusiastic
llysenw - nickname
eilyddio - (to) substitute
ffrwgwd - scuffle
balch - proud
Trydar - Twitter
pen-blwydd ei briodas - his wedding
anniversary
dilynwr/wyr - follower/s
gwneud hwyl am ei ben - (to) make fun of him
parhau - (to) carry on
cyflawniad/au - achievements
enfawr - massive
dymuno - (to) wish
tramor - abroad / foreign
trwy gydol ei yrfa - throughout his career
arwain - (to) lead
dychwelyd - (to) return
llwyddiannus - successful
mab / meibion - son/s
cofiadwy - memorable
cic drosben - overhead kick

Yr Ysgol

Mae rhestr o eiriau ar y bwrdd du. Beth ydyn nhw?
Maen nhw i gyd ar y ddesg.

af□l

r ■ b e ■

pen ■ e ■


pê 

ini r

■ w r s

B o D

ren melu



Beth wyt ti'n wneud ar noson Calan Gaeaf?

chwarae ysbrydion!

gwisgo mwgwd!

casglu arian!

Ysgrifenna frawddeg a thynna lun beth wyt ti'n wneud ar noson Calan Gaeaf.

CALAN GAEAF

Ar noson Calan Gaeaf dw i yn...

Tynna lun fan hyn!

Geirfa Calan Gaeaf - rho dro ar ddyfalu beth ydyn nhw a pharru'r llun hefo'r gair.

gwrach

lleuad

gwddihw

pwmpen

ystlum


cath

ysbryd

twco fale

afal

mwgwd



BWGAN CALAN GAEAF

Roedd Ani yn flin. Roedd Ani yn flin iawn!

"Beth sy'n bod Ani?" meddai mam Ani. Doedd mam Ani ddim yn flin. Roedd mam Ani yn hapus iawn. Roedd hi yn paratoi parti. Parti Calan Gaeaf!

Roedd hi wedi torri siapiau papur i addurno'r tŷ at y parti. Roedd llawer o siapiau gwahanol.

Ystlumod du.

Ysbrydion gwyn.

Pwmpenni oren.

Cathod du.

Gwrach hefo trwyn gwyrdd.

Ysgub frown.

Sgerbwd du a gwyn.

Nawr, roedd rhaid addurno'r tŷ gyda'r siapiau. Roedd rhaid:

Rhoi ystlumod du ar y nenfwd.

Rhoi ysbrydion gwyn ar y ffenestri.

Gludo'r pwmpenni oren i'r waliau.

Addurno'r sgyrtin gyda chathod du.

Rhoi'r siâp gwrach ac ysgub ar y drws.

Rhoi'r sgerbwd du a gwyn ar y silff ben tân.

"Tyrd i helpu!" meddai mam Ani.

"Na!" gwaeddodd Ani'n flin.

"Beth sy'n bod Ani?" gofynnodd mam Ani eto.

"Dw i'n casáu Calan Gaeaf!" meddai Ani.

"O! Na!" meddai mam Ani. "Pam?"

"Dw i'n casáu blas pwmpen. Dw i'n tisian wrth weld cathod. Mae ystlumod yn mynd yn sownd mewn gwallt pobl. A dw i ofn gwrachod, ysbrydion a sgerbydau!"

"O diar!" meddai mam Ani. "Ond papur ydyn nhw i gyd. Nid rhai go iawn."

"Dw i'n gwybod," meddai Ani. "Ond dw i dal yn casáu Calan Gaeaf!"

"Tyrd yma," meddai mam Ani. Mae hi'n mynd ag Ani i'r gegin.

Yno, roedd mam Ani wedi gwneud bwyd parti Calan Gaeaf. Llund bwrdd o bethau melys, blasus.

Roedd bisgedi siâp bwganod, ysgytlaeth lliw ysbrydion, jeli dychrynlyd, cacen siâp corryn...

"Waw!" meddai Ani. "Dw i'n CARU Calan Gaeaf!"

Geirfa

blin / crac - cross

blin / crac iawn - very cross

beth sy'n bod? - what's wrong?

ddim - not

paratoi - preparing

torri - to cut

siapiau papur - paper shapes

addurno - to decorate

gwahanol - different

ystlumod - bats

ysbryd/ion - ghost/s

pwmpen/ni - pumpkin/s

cath/od - cat/s

gwrach - witch

trwyn gwyrdd - green nose

ysgub - broom

sgerbwd - skeleton

nenfwd - ceiling

gludo - to stick

sgyrtin - skirting board

silff ben tan - fireplace

gwaeddi/gwaeddodd - shout / shouted

casáu - to hate

blas - taste

tisian - sneeze

mynd yn sownd - get stuck

gwallt - hair

ofn - fear/ scared of

nhw i gyd - all of them

go iawn - real

dal - still

tyrd yma - come here

bwyd - food

llond bwrdd - a table full

melys - sweet

blasus - tasty

lliw - colour

dychrynlyd - scary

corryn (pry' cop in the north)

- spider

caru - to love